

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWYD YN Y NEUADD 3 CHWEFROR 2022 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol Y Cyng Elfyn Williams (Cadeirydd), Philip Davies, Nicola Jones, Richard John, Viv Davies, Shan Rees, Meinir James, Rheinalt Jones, Eifion Jones, Janet Knott ac Arfon Davies (Clerc).

Ymddiheuriadau: Dim.

Talodd y Cadeirydd deyrnged i'r Cynghorydd Mair Stephens a fu farw'n ddiweddar a mynegodd gydymdeimlad dwysaf y Cyngor â'r teulu. Safodd aelodau am funudau o dawelwch er cof am Mair.

Nododd y Cadeirydd hefyd longyfarchiadau'r Cyngor i Siân Elin Knott o Fancycapel a oedd yn Brif Ffisiotherapydd i Dîm Gemau Olympaidd y Gaeaf Prydain Fawr yn Beijing.

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed Ionawr 2022.

4. Materion yn codi

- 1. Diogelwch ffyrdd ar gyffordd Llandyfaelog gyda'r A484** – Roedd y Cyngor yn aros am ddyddiad ar gyfer ymweliad safle gyda'r Adran Goleuadau Cyhoeddus o Gyngor Sir Caerfyrddin i drafod prosiect gwella ar gyfer y gyffordd. Nodwyd.
- 2. Pryder am gyflymderau traffig ar hyd Heol y Lan** – Roedd y Cyngor yn aros am ddarpariad canlyniadau'r monitro cyflymder ar gyfer y lleoliad. Nodwyd.
- 3. Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 4. Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** - Nododd y Clerc nad oedd y cais wedi ei benderfynu eto. Nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud ar safle'r cais dros y dyddiau diwethaf a bydd y Clerc yn codi hyn gyda'r Cyngor Sir. Nodwyd.
- 5. Cais Cynllunio PL/02381, Maeshyfyd, Pentrepoeth** – Nododd y Clerc fod y cais wedi ei gymeradwyo. Bydd y Clerc yn codi mater yr angen i ail-leoli'r arwydd cyfyngiad 30mya sydd wedi ei leoli wrth fynedfa'r safle datblygu eto gyda'r Cyngor Sir. Nodwyd.
- 6. Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog** - Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 7. Archwiliad o Gyfrifon Ariannol y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2021** – Mynegwyd pryder nad oedd y Cyngor wedi derbyn y cyfrifon archwiliedig gan Archwilio Cymru o hyd.
- 8. Arwyneb ffordd yn Bwll y Baw** – Nododd y Clerc fod gwaith pellach wedi ei wneud yn yr ardal a oedd wedi lleddfu pryderon trigolion i raddau helaeth mewn perthynas â chyflwr y ffordd. Nodwyd.
- 9. Cerbydau ddim yn stopio ar y ildiwch ym Mhont Pibwr ar Heol Bolahaul** – Cafwyd cadarnhad bod tîm Priffyrdd y Cyngor Sir wedi ymweld â'r safle a gytunodd nad oedd gwelededd yn ddelfrydol yn y lleoliad, er hynny ni nodwyd unrhyw ganghennau coed yn is na 5m yn hongian dros y briffordd gyhoeddus.

Nodwyd rhywfaint o waith torri clawdd ac roedd wedi'i wneud a chytunwyd bydda'r llinellau ymyl presennol yn cael eu hadnewyddu. Nodwyd.

- 10. Materion traffig yng Nghroesyceiliog** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 11. Dŵr yn rhedeg i Landyfaelog o'r briffordd yn achosi llifogydd** – Derbyniwyd e-bost yn nodi y credir bod y cwlfer ger Brynhawddgar mewn gwirionedd yn rhedeg i mewn i gwrs dŵr y pentref. Nododd y Cyngor fod y wybodaeth yma yn ail-bwysleisio pwysigrwydd dod a mater draeniad dwr yng ngwaelod y pentref i ben a bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariad.
- 12. Arwydd pentref Croesyceiliog** - Nodwyd bod yr arwydd ar y rhestr i'w newid pan ddaw adnoddau ar gael. Nodwyd.
- 13. Gwelliannau i arwyddion yng Nghloigyn** - Roedd y Cyngor yn aros am ymateb ar y mater.
- 14. Hyfforddiant Côt Ymddygiad** – Derbyniwyd anfoneb am £15.00 gan Un Llais Cymru am 50% o'r ffi hyfforddi (gostyngiad oherwydd cais am fwrsariaeth). Cytunwyd hyn.
- 15. Gorfodaeth Cynllunio, Cae yn Idole** – Derbyniwyd cadarnhad gan y Tîm Gorfodaeth Cynllunio yn dilyn cyswllt gyda'r tîfeddiannwr newydd fod y gwaith wedi ei wneud i gefnogi cadw gwenyn a phlannu blodau ar y cae. Oherwydd hyn roedd yr Adran Gynllunio wedi gofyn am gais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer y llain galed, er y teimlwyd pe na bai hynny'n digwydd, na fyddai'r defnydd a awgrymwyd yn cyfiawnhau mynd ar ôl y mater. Nodwyd hyn, nodwyd hefyd bod blwch post bellach wedi ei osod ar y safle. Bydd y mater yn cael ei fonitro.
- 16. Twll yn y Ffordd, Sgwar Bryncochbach** – Cadarnhawyd bod y twll yn y ffordd wedi ei atgyweirio. Nodwyd.

5. Gohebiaeth

- 1. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Newyddion diweddaraf. Nodwyd.
- 2. Un Llais Cymru** - Sesiynau hyfforddi Ionawr – Mawrth. Nodwyd.
- 3. Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda** – Cylchlythyr Ionawr. Nodwyd.
- 4. Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
- 5. Banc Barclays** – Datganiadau. Nodwyd.
- 6. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Arolwg ymgysylltu yn ymwneud â rheolaethau cŵn ychwanegol. Nodwyd.
- 7. Comisiynydd Pobl Hŷn** – Gwybodaeth am sesiynau ymgysylltu ar 'ailgysylltu â'n Cymunedau'. Nodwyd.
- 8. Cais am wybodaeth Hanes Teulu** – Cais Hanes Teulu Mewn perthynas â'r Teulu Lloyd a allai fod wedi bod yn seiri oedd yn byw yn ardal Landyfaelog yn ystod y cyfnod 1740 – 1850. Cytunwyd i osod y cais yn y Cylchlythyr Cymunedol.
- 9. Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am Arddwest Palas Buckingham 2022. Nodwyd.
- 10. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cais am wybodaeth ar gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad yn y cyfnod 1af Ebrill 2019 – 31ain Mawrth 2020. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi darparu'r manylion y gofynnwyd amdanynt. Nodwyd.
- 11. Cyngor Tref Caerfyrddin** – Gwahoddiad gan Faer Caerfyrddin i'r Cadeirydd fynychu'r Orymdaith Dewi Sant blyneddol ar y 5ed o Fawrth 2022. Bydd y Cadeirydd yn mynychu os yn bosibl.
- 12. CFFI Llanismel** – Llythyr o ddiolch am rodd ddiweddar y Cyngor. Nodwyd.
- 13. Cynllun Teganau Cyngor Sir Caerfyrddin** – E-bost yn diolch i'r Cyngor am ei rodd i'r cynllun. Nodwyd.
- 14. Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin** – Gwybodaeth am yr ymgyrch ChWEfror ar-lein. Nodwyd.
- 15. Archwilio Cymru** – Gwybodaeth am y taliadau archwilio amcangyfrifed ar gyfer 2021-22. Nodwyd.

6. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad pellach ar yr hawliad yswiriant yn ymwneud â difrod i'r ffens. Nodwyd bod y trydydd parti yn adnabyddus yn lleol gyda'r enw ar gael yn rhwydd pe bai angen.
2. Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod â Swyddog Rheoli Coed y Cyngor Sir yng Nghae Idole ar y 12fed o Ionawr. Yn dilyn archwiliad roedd y Cyngor Sir wedi cytuno i drefnu cael gwared ar y coed yn ystod eu gwaith coed nesaf yn yr ardal, ac roedd hyn yn debygol o gael ei wneud ym mis Mawrth. Bydd y Cyngor yn ystyried y posibilrwydd o brynu coed ychwanegol unwaith y bydd y rhain wedi'u tynnu lawr.
3. Yn dilyn derbyn cais gan ddarpar dendrwr, cytunwyd i ganiatáu estyniad o 14 diwrnod pellach i'r cyfnod darparu prisiau. Rhoddwyd awdurdod datganoledig i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gytuno contractwr pan derbyniwyd os teimlir bod hynny'n briodol.
4. Nododd y Clerc ei fod wedi atgoffa Atgyweiriwr y Cyngor o'r angen i baentio'r coed ar feinciau'r Cyngor a bod y gwaith nawr wedi cychwyn.

7. Sedd wag i aelod o'r Cyngor

Nododd y Clerc y sedd wag ar gyfer aelod o'r Cyngor yn dilyn marwolaeth y Cyng Mair Stephens. Nodwyd oherwydd agosrwydd at Etholiadau'r Cyngor a oedd i'w cynnal ym mis Mai 2022 mai mater i'r Cyngor oedd symud ymlaen gyda'r broses gyfethol neu aros am yr etholiadau. Cytunwyd fel teyrnged i'r Cyng Stephens i gadw'r lle gwag hyd nes y cynhelir yr etholiadau.

Cytunwyd ymhellach i wneud cyfraniadau o £50.00 yr un er cof am Mair i'r elusennau enwebedig, uned gofal y bron Peony a Marie Curie.

8. Atgyweiriwr y Cyngor

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr o waith ym mis Rhagfyr gyda chost o £420.00 yn cael ei gymeradwyo. Derbyniwyd anfoneb pellach o £170.31 am y defnyddiau a ddefnyddiwyd. Cytunwyd hyn hefyd.

9. Digwyddiadau Cymunedol 2022

Ystyriodd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl y gallai'r Cyngor eu trefnu yn ystod 2022, cytunwyd byddai cystadlaethau'n cael eu cynnal fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Ardd:
 - Llysiau i'w barnu ym mis Mehefin;
 - Blodau i'w beirniadu ym mis Gorffennaf
 - Cystadleuaeth Bwgan Brain i'w beirniadu ar yr un pryd â'r Gerddi Blodau

Cytunwyd ymhellach i drafod digwyddiad posibl i nodi Jiwbilî Platinwm Ei Mawrhydi'r Frenhines ym mis Mehefin gyda Phwyllgor Neuadd Gymunedol Llandyfaelog. Bydd y Clerc yn archwilio'r posibilrwydd o wneud cais am grant i Gynllun y Loteri Genedlaethol ar gyfer costau yn ymwneud ag unrhyw ddigwyddiad.

10. Adroddiad Cynllun Iaith Gymraeg

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad blynyddol drafft i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfiaid y Cyngor â'i Gynllun Iaith Gymraeg. Cytunwyd yr adroddiad ac arwyddwyd gan y Cadeirydd i'w ddychwelyd.

11. Cynllunio

1. **PL/03427** - Adeiladu sgubor marchogaeth ac arena farchogaeth pob tywydd, a pharcio. Newid defnydd i farchogaeth - Gwen Yr Haul, Idole, Caerfyrddin, SA32 8DH. Dim gwrthwynebiadau. Bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariad ar y problemau yn ymwneud a'r llwybr troed yn yr ardal yma.

12. Cyfrifon

Cytunwyd y taliadau canlynol

1. Un Llais Cymru £15.00 Cost hyfforddiant (gweler eitem 4.14)

2.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Ionawr a costau	£624.78	£26.00 £7.00 £15.84 £20.70	£694.32	£126.20	£0.00	£568.12

- | | | | |
|----|--------------------|---------|-------------------------------------|
| 3. | Michael Leefe | £420.00 | Atgyweiriwr Ionawr - gweler eitem 8 |
| 4. | Michael Leefe | £170.31 | Deunyddiau – gweler eitem 8 |
| 5. | Marie Curie | £50.00 | Cyfraniad - gweler eitem 7 |
| 6. | Gofal y fron Peony | £50.00 | Cyfraniad - gweler eitem 7 |

13. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Bydd y Clerc yn gofyn i Atgyweiriwr y Cyngor dorri yn ôl ar dyfiant iorwg ar dŷ pwmp Llandyfaelog.
2. Nodwyd bod steil y llwybr troed yn Nantllan wedi'i ddifrodi. Bydd y Clerc yn adrodd i'r Cyngor Sir.
3. Adroddwyd bod twll yn y ffordd ar gyffordd yr A484 a'r lôn yn mynd heibio Bryncoch i gyfeiriad y Lan. Bydd y Clerc yn adrodd i'r Cyngor Sir.
4. Bydd y Clerc yn adrodd nad oedd y golau gyferbyn ag Eglwys Santes Ann ar y lôn i gyfeiriad Penygraig yn gweithio.
5. Rhoddodd yr Is-gadeirydd adroddiad ar y Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned yr oedd wedi'i fynychu.
6. Cytunwyd i gynnal Cinio Blynyddol y Cyngor ar 29ain Ebrill 2022.

Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Iau 3ydd Mawrth 2022.